## OEDFAON

**Capel y Brithdir**

Ionawr
13 - Euron Huws, Llanfachreth, 5.30
27 - Parch Patrick Slattery, 5.30

Chwefror
3 - Parch Dewi T Morris, 5.30
24 - Parch Anita Ephraim, 5.30yh

Mawrth
17 - Bonwr Edward Morris Jones, 2yh

**Capel Rhyd-y-main**

# Dathlu gwaith canolfannau iaith Gwynedd

MAE 'Ffair Weithgareddau' lwyddiannus wedi ei chynnal yng Nghanolfan Porthmadog i ddathlu'r gwaith gwych a gyflawnir gan Ganolfannau Iaith Gwynedd.

Nod y Canolfannau Iaith ydi darparu cwrs dwys yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ifanc er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn addysg ddwyieithog. Mae disgyblion yn dilyn cwrs wedi'i strwythuro'n ofalus er mwyn dod yn rhugl ar lafar a datblygu sgiliau ysgrifennu a darllen hefyd. Rhwng Medi 2005 a Haf 2011 roedd 1,173 o blant wedi mynychu Canolfannau Iaith Gwynedd.

Yn ystod y dathliad diweddar cafwyd perfformiadau canu ac actio gan blant o bob Canolfan a chyfle i sgwrsio efo'r disgyblion wrth iddynt gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau cyfrifiaduron, mathemateg, darllen a gemau bwrdd. Mae gan Wynedd bedair Canolfan Iaith ar gyfer plant Cynradd (Dolgellau, Maesincla, Llangybi, a Phenrhyndeudraeth) ac un Canolfan Iaith Uwchradd ym Mhorthmadog.

Dywedodd y Cynghorydd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd: "Cyflwynwyd y cynllun arloesol ac unigryw hwn yn yr 80au. Dros y blynyddoedd mae cannoedd o blant di-Gymraeg sydd wedi symud i Wynedd ac wedi cael y cyfle i ddysgu'r iaith a dysgu am y diwylliant Cymraeg yn y canolfannau arbennig hyn. Braf iawn oedd cael y cyfle i gydnabod y gwaith gwych a phwysig mae'r staff yn ein canolfannau iaith yn ei gyflawni. Mae'r Canolfannau hyn yn gosod sylfeini am oes o ddwyieithrwydd a galluogi'r plant i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl a hyderus yn y pendraw."

Yn ogystal â chefnogi plant i ddysgu'r Gymraeg mae'r canolfannau yn cynnig cwrs arloesol 'Blas ar Gymru' i'r rhieni. Pwrpas y cwrs yw cyflwyno a chodi ymwybyddiaeth rhieni sydd wedi symud i'r ardal o'r iaith, y diwylliant a'r ardal.